Cynlluniau Datblygu Lleol – Y deg 'prawf cadernid'

Mae 'cadernid' yn rhan bwysig o system y Cynlluniau Datblygu Lleol. Fe'i defnyddir i brofi a yw'r Cynllun yn ddoeth ac yn addas, neu ddim. Caiff y CDLl ei sgrinio gan Arolygydd annibynnol yn gynnar yn y broses i sicrhau na wastreffir amser yn archwilio cynllun yn fanwl sydd ddim yn gadarn yn y bôn.

Er mwyn i gynllun fod yn gadarn, rhaid paratoi'r CDLl yn unol ag yr amserlen reolaeth prosiect yn y Cytundeb Cyflawni, ac hefyd y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Yn ystod yr Archwiliad gan Arolygydd annibynnol edrychir yn ofalus ar unrhyw wyriadau arwyddocaol.

Y dybiaeth yw bod y CDLl yn gadarn os na ellir dangos ei fod fel arall yn seiliedig ar dystiolaeth a ystyrir trwy gydol yr archwiliad.

Dyma'r deg prawf a ddefnyddir i weld a yw'r CDLl yn 'gadarn':

1) A baratowyd y cynllun yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, yn cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?

2) A werthuswyd agwedd gynaladwyedd y cynllun, yn cynnwys asesiad amgylcheddol strategol?

3) Ydy'r CDLl yn rhoi ystyriaeth i gynlluniau, polisïau a strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r ardal, neu ardaloedd cyfagos?

4) Ydy'r cynllun yn ystyried polisi cenedlaethol?

5) Ydy'r cynllun yn ystyried Cynllun Gofodol Cymru?

6) Ydy'r cynllun yn ystyried y strategaeth gymunedol berthnasol (neu'r Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol)?

7) Ydy'r cynllun yn gosod allan strategaeth resymegol y bydd polisïau a dyraniadau yn llifo'n rhesymegol oddi wrthi?

8) Ydy'r strategaeth, polisïau a'r dyraniadau yn realistig a phriodol (ag ystyried y dewisiadau perthnasol eraill) ac a sylfaenwyd hwy ar sail dystiolaeth gref a chredadwy?

9) Oes mecanwaith glir i weithredu a monitro'r cynllun?

10) Ydy'r cynllun yn weddol hyblyg fel y gall ddelio gyda newid mewn amgylchiadau?